

# Gair am y ddogfen hon

---

Ym mis Mawrth 2018, fe wnaeth Llywodraeth y DU gyflwyno deddfwriaeth ar gyfer ymrwymiad gwasanaeth cyffredinol ("USO") band eang sy'n rhoi hawl i gartrefi a busnesau cymwys gael cysylltiad band eang digonol.

Mae Ofcom nawr yn gyfrifol am weithredu'r USO. Mae'r ddogfen hon yn nodi ein hamcanion a sut y byddwn ni'n dynodi Darparwr/wyr Gwasanaeth Cyffredinol i ddarparu'r cysylltiadau band eang hynny. Mae hefyd yn galw ar gyrff sydd â diddordeb i'w cyflwyno eu hunain fel darpar Ddarparwr/wyr Gwasanaeth Cyffredinol, ac mae'n esbonio beth yw'r rhwymedigaethau tebygol y bydd yn rhaid iddyn nhw eu bodloni, a sut gallan nhw ddisgwyl cael eu digolledu.

# 1. Crynodeb

- 1.1 Mae cyfathrebu digidol wedi dod yn fwy a mwy o ran o fywydau pobl ledled y DU, ac mae hyn yn golygu ei bod yn bwysig iawn i gartrefi a busnesau fod yn gallu cael mynediad at fand eang digonol. Mae band eang dibynadwy a digonol yn wasanaeth hanfodol erbyn hyn, ac mae angen iddo fod ar gael i bob rhan o'r DU – gan gynnwys cymunedau trefol a gwledig fel ei gilydd. Er bod nifer y bobl sy'n methu cael mynediad at fand eang digonol yn gostwng, nid oedd tua 900,000 o safleoedd yn y DU, neu 3% o eiddo, yn gallu cael cysylltiad band eang a oedd diwallu anghenion y cartref cyffredin ar ddechrau 2018.
- 1.2 Gyda gwelliannau sylweddol i argaeledd band eang cyflym iawn, gan gynnwys cynlluniau sy'n cael arian cyhoeddus, a mwy o gwmnïau yn cyflwyno rhwydweithiau ffibr llawn cyflymach a mwy dibynadwy, mae'r nifer yn sicr o ostwng rhagor yn y blynyddoedd nesaf. Mae Ofcom wedi sefydlu diwygiadau i annog buddsoddiad mewn cysylltiad ffibr llawn, modern, ac mae'n hollbwysig fod pob darparwr band eang, gan gynnwys BT, yn parhau i ymestyn seilweithiau eu rhwydweithiau i sicrhau bod mwy o ddefnyddwyr yn gallu cael mynediad at y band eang sydd ei angen arnynt.

## Ymrwymiad Gwasanaeth Cyffredinol (USO) gan y Llywodraeth

- 1.3 Er mwyn helpu cartrefi a busnes sy'n methu cael band eang digonol, fe wnaeth Llywodraeth y DU gyflwyno is-ddeddfwriaeth ym mis Mawrth 2018 i nodi'r gofynion ar gyfer ymrwymiad gwasanaeth cyffredinol ("USO"). Bwriad yr USO yw bod yn rhwyd ddiogelwch i atal eithriad cymdeithasol a digidol, ni waeth ble mae pobl yn byw neu'n gweithio.
- 1.4 Bydd yr USO yn rhoi'r hawl i ddefnyddwyr a busnesau ofyn am gysylltiad band eang sy'n gallu darparu cyflymderau lawrlwytho sydd o leiaf 10 Mbit/s a chyflymderau uwchlwytho sydd o leiaf 1 Mbit/s. Mae'r cyflymderau hyn yn ddigon i ganiatáu i nifer o bobl yn yr un tî bori'r we, gwneud galwadau fideo neu wyllo ffilmiau manylder uwch.
- 1.5 Er mwyn cael cysylltiad band eang dan yr USO, rhaid i ddefnyddwyr fodloni meini prawf sydd yn y ddeddfwriaeth. Ond ni fydd pob defnyddiwr yn gymwys. Dim ond y safleoedd canlynol fydd yn gymwys:
  - safleoedd lle nad oes cysylltiad band eang (gan unrhyw ddarparwr) sy'n bodloni neu'n rhagori ar fanyleb yr USO neu lle na fydd cysylltiad o'r fath yn cael ei ddarparu gan gynllun cyflwyno sy'n cael arian cyhoeddus yn y flwyddyn nesaf; a
  - phan fo cost adeiladu cysylltiad USO hyd at £3,400. Bydd defnyddwyr a busnesau'n cael eu cysylltu os ydyn nhw'n fodlon talu unrhyw gostau dros y terfyn hwn.
- 1.6 Gan fod yr USO yn darparu hawl i ddefnyddwyr ofyn am gysylltiad, nid rhaglen gyflwyno band eang yw hon a gallai gymryd amser i adeiladu neu ddiweddarau pob cysylltiad i safleoedd sy'n gofyn amdano.
- 1.7 Mae'r Llywodraeth nawr wedi gofyn i Ofcom weithredu'r USO. Mae llawer o agweddau ar yr USO wedi cael eu nodi yn y ddeddfwriaeth, ond mater i Ofcom fydd penderfynu ar rai materion penodol o ran gweithredu. Yn arbennig, bydd angen i Ofcom:

- ddynodi un neu ragor o Ddarparwyr Gwasanaeth Cyffredinol i ddarparu'r gwasanaeth;
  - sefydlu'r ymrwymadau y mae'n rhaid i'r darparwr/wyr eu gwneud er mwyn darparu'r cynllun yn unol â'r ddeddfwriaeth; a
  - phennu sut y gellid digolledu'r costau i Ddarparwr Gwasanaeth Cyffredinol.
- 1.8 Mae'r ymgynghoriad hwn yn canolbwyntio ar ddeall pa ddarparwyr sy'n dymuno cael eu hystyried yn Ddarparwr Gwasanaeth Cyffredinol, a beth fyddai eu cynlluniau gweithredu er mwyn i ni allu ystyried pwy fyddai yn y sefyllfa orau i ddarparu'r USO.

## **Amcanion ar gyfer gweithredu'r USO a'n ffordd ni o ddynodi**

- 1.9 Dyma ein prif amcanion wrth weithredu'r cynllun:
- darparu'r USO cyn gynted â phosibl, fel y gall defnyddwyr elwa cyn gynted â phosibl;
  - sicrhau bod unrhyw ddarparwr dynodedig yn gallu darparu gwasanaethau sy'n cwrdd â manylebau'r USO; a
  - sicrhau bod y gost o ddarparu, ac felly yr effaith ar y diwydiant a defnyddwyr, mor isel â phosibl.
- 1.10 Bydd pob darparwr sydd â diddordeb yn cael cyfle i roi eu hunain gerbron drwy broses dryloyw sy'n agored i bawb, a hynny er mwyn sicrhau bod y darparwr/wyr mwyaf galluog ac effeithlon yn cael eu dynodi.
- 1.11 Rydyn ni wedi ystyried sawl opsiwn o ran y modd y gallai'r broses ddynodi weithio. Rydyn ni'n credu bod mai'r ffordd fwyaf effeithiol o ddarparu'r USO cyn gynted â phosibl yw bod gweithredwyr yn mynegi eu diddordeb mewn darparu'r cynllun, naill ai ar sail genedlaethol neu ar sail ranbarthol. Fe fyddwn ni wedyn yn dynodi'r darparwr/wyr sydd yn y sefyllfa orau i ddarparu'r USO.
- 1.12 Byddwn ni'n ystyried yr opsiwn o ddynodi Darparwr/wyr Gwasanaeth Cyffredinol drwy gynnal proses gystadleuol ffurfiol, megis arwerthiant. Ond er mwyn i'r broses hon fod yn effeithiol, byddai angen digon o gystadleuaeth rhwng darparwyr er mwyn gwthio cynigion i lawr i'w cost effeithlon. Ar sail ein trafodaethau â darparwyr, a strwythur y seilwaith rhwydwaith band eang presennol, nid oes digon o ddiddordeb mewn darparu'r USO yn genedlaethol, nac yn yr un ardaloedd, i gynnal proses gystadleuol effeithiol.
- 1.13 Ond ymddengys fod rhywfaint o ddiddordeb gan ddarparwyr mewn darparu cysylltiadau USO mewn gwahanol ardaloedd o'r DU. Rydyn ni'n awyddus i sicrhau bod darparwyr yn cael cyfle i ddarparu'r USO, yn enwedig rhai sydd eisoes wedi cyfrannu at gyflwyno band eang ar lefel leol. Byddwn ni'n ystyried a fyddai modd dynodi gwahanol Ddarparwyr Gwasanaeth Cyffredinol mewn gwahanol rannau o'r DU, ynteu a fyddai'n well dynodi un Darparwr Gwasanaeth Cyffredinol yn genedlaethol i gyflawni ein hamcanion.
- 1.14 Er mwyn canfod pa ddarparwyr y gallen ni eu dynodi, ac ymhle yn y DU, rydyn ni'n gwahodd partïon sydd â diddordeb i ymateb gan fynegi diddordeb a nodi:
- pa ardaloedd y byddai ganddynt ddiddordeb yn eu gwasanaethu;
  - eu dull o ddarparu'r USO, a'r gwasanaethau maen nhw'n cynnig eu darparu; a'u
  - capasiti i ddarparu'r USO.

1.15 Bydd unrhyw Ddarparwr/wyr Gwasanaeth Cyffredinol yn ddarostyngedig i rhwymedigaethau penodol y bydd angen iddyn nhw eu dilyn wrth ddarparu'r USO. Rydyn ni wedi nodi ein meddyliau presennol am y materion hyn er mwyn cynorthwyo darparwyr sydd â diddordeb i baratoi eu hymatebion i'r ddogfen hon. Byddwn ni'n cyflwyno cynigion penodol ar y rhwymedigaethau i'w gosod ar Ddarparwr/wyr Gwasanaeth Cyffredinol erbyn diwedd y flwyddyn.

## Y camau nesaf

- 1.16 Byddwn ni'n ymgynghori ym mis Medi am y rheoliadau sy'n nodi ein proses ddynodi arfaethedig ar ôl i ni ystyried yr ymatebion i'r ddogfen hon. Rydyn ni'n disgwyl gwneud y rheoliadau dynodi yn nes ymlaen eleni.
- 1.17 Byddwn ni hefyd yn cynnig pwy ddylai gael ei ddynodi'n Ddarparwr/wyr Gwasanaeth Cyffredinol, ynghyd â'r Ymrwymadau Gwasanaeth Cyffredinol y dylen nhw gydymffurfio â nhw, yn nes ymlaen eleni. Rydyn ni'n disgwyl gwneud ein penderfyniadau ar y materion hynny erbyn haf 2019.

## Strwythur y ddogfen

- 1.18 Dyma strwythur gweddill y ddogfen hon:
- Mae Adran 2 yn nodi cyd-destun a phwrpas yr USO;
  - Mae Adran 3 yn amlinellu'r rhwymedigaethau y mae Darparwr Gwasanaeth Cyffredinol yn debygol o fod yn ddarostyngedig iddynt dan yr USO, a sut byddai disgwyl i unrhyw drefniadau cyllid weithredu;
  - Mae Adran 4 yn nodi'r dull dynodi yr ydyn ni'n cynnig ei ddilyn; ac
  - Mae Adran 5 yn nodi'r wybodaeth sydd ei hangen arnom gan ddarparwyr sydd â diddordeb er mwyn cyfrannu at ein hasesiad.
- 1.19 Hefyd, mae Atodiadau 1 a 2 yn nodi sut i ymateb i'r ddogfen hon. Mae Atodiad 3 yn cynnwys dolen i ddata ein *Diweddariad Cysylltu'r Gwledydd: Gwanwyn 2018* yn ôl awdurdodau lleol. Mae Atodiad 4 yn cynnwys crynodeb o gynlluniau cyflwyno band eang sydd wedi cael arian cyhoeddus, ac mae Atodiad 5 yn esbonio'r termau.